



Maniffesto ar gyfer Dyfodol Cludiant Cymru

Ebrill 2026

RHAGYMADRODD

Cyflawni Dyfodol Trafnidiaeth Cymru

Mae'r Maniffesto hwn yn amlinellu pedwar argymhelliad allweddol ar gyfer dyfodol cludiant yng Nghymru. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, gall y sector technoleg cludiant helpu i gefnogi mwy o gynhyrchiant a thwf economaidd, a chreu swyddi yng Nghymru.

Cyfraniadau'r Sector Systemau Trafnidiaeth Deallus (ITS) yng Nghymru



Gwerth economaidd o
£100 miliwn (GYC)



1,420 o swyddi



Cyflwyno £70,422 mewn
gwerth economaidd fesul
swydd, yn uwch na'r
cyfartaledd cenedlaethol
o £55,141[1].

Gall technoleg cludiant helpu i fynd i'r afael â llawer o rwystrau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru wrth gefnogi cymunedau a busnesau ledled Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion

1. Datblygu ymdrechion ymhellach i gyflwyno tocynnau clyfar i wella integreiddiad cludiant cyhoeddus, nifer y teithwyr a phrofiad teithwyr
2. Cefnogi gwaith uwchraddio ac adnewyddu technoleg draffig i ddefnyddio'r seilwaith presennol yn well, gwella diogelwch a chynyddu cynhyrchiant
3. Mandadu data agored, mewn amser real fel sail i system drafnidiaeth integredig
4. Parhau i gefnogi gwasanaethau bws ar alw ar draws y genedl

1 Datblygu ymdrechion ymhellach i gyflwyno tocynnau clyfar i wella integreiddiad cludiant cyhoeddus, nifer y teithwyr a phrofiad teithwyr

Ar hyn o bryd, nid oes gan 19.4% o gartrefi Cymru gar neu fan, sy'n golygu bod cludiant cyhoeddus yn hanfodol i lawer o bobl er mwyn teithio i'r gwaith, at ddibenion hamdden ac er mwyn cyrchu gwasanaethau. Er hyn, mae nifer y teithwyr ar gludiant cyhoeddus yn dal i adfer yn dilyn y pandemig ac mae'n arafach na rhanbarthau a chenhedloedd eraill [2].

Un o'r ffyrdd allweddol o annog mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yw mynd i'r afael â diffyg cydlyniant data a thocynnau cludiant, a chysylltiadau di-drefn ar draws ffyrdd o deithio [3].

Mae un o bob pump o gartrefi'n dibynnu'n gyfan gwbl ar gludiant cyhoeddus, ac mae traean o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig, ac felly mae hi'n hollbwysig ein bod ni'n sicrhau bod cludiant cyhoeddus yn fwy dibynadwy, yn haws ac yn effeithlon.

Gall Llywodraeth Cymru ddarparu rhwydwaith trafndiaeth mwy hwylus a dibynadwy i'r nifer fawr o gartrefi ar draws ardaloedd gwledig a threfol, drwy ddatblygu ymhellach ymdrechion presennol i ddefnyddio systemau tocynnau clyfar (gan gynnwys digyffwrdd a Thalu Wrth Fynd Digidol, ynghyd â thocynnau symudol neu ar gyfrifon).



2. <https://www.gov.wales/sub-regional-productivity-2002-2023-html>

3. <https://www.ons.gov.uk/datasets/TS045/editions/2021/versions/4#variables>

4. <https://research.senedd.wales/research-articles/keeping-track-scrutiny-of-transport-for-wales/>

Gall tocynnau clyfar wella integreiddiad drwy gynnig dull mwy hwylus a syml o dalu, wrth sicrhau prisoedd teg i deithwyr.

Mae ymdrechion presennol yng Nghymru eisoes yn dwyn ffrwyth, gyda theithiau talu wrth fynd ar rwydwaith rheilffordd Trafnidiaeth Cymru yn cyrraedd dau miliwn tuag at ddiwedd 2025 - sef cynnydd o bumed yn ystod 24/25 o 23/24. Yn y cyfamser, mae bysus yng Nghymru wedi dechrau defnyddio technoleg tapio i mewn ac allan a chapiau ar brisoedd, gan gyfrannu at gynnydd o 11.4% mewn teithiau ar fysis a gynhelir gan Drafnidiaeth Cymru yn 24/25 dros yr un cyfnod [4].

Wrth i dechnoleg ddatblygu, mae'n werth ystyried datrysiadau tocynnau arloesol, megis Talu Wrth Fynd Digidol (DPAYG) ar apiau hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad yw rhoi datrysiadau seilwaith sylweddol ar waith yn ddichonol. Gall Talu Wrth Fynd Digidol gyfrannu at y dulliau tapio i mewn ac allan newydd sy'n cael eu cyflwyno, wrth hefyd gynnig ffordd o integreiddio tocynnau ar draws ffiniau a chefnogi teithiau sy'n cychwyn yng Nghymru ac yn gorffen yn Lloegr.

Mae defnyddio technoleg tocynnau clyfar, ym mhob rhan o'r rwydwaith cludiant, yn ysgogydd allweddol i deithiau sy'n fwy cydlynus, sy'n gallu symleiddio'r broses o ddefnyddio cludiant cyhoeddus a'r gost o wneud hynny, gan annog pobl i'w ddefnyddio. Bydd parhau i gyflwyno technoleg tocynnau clyfar yn cyflawni rwydwaith cludiant modern a hwylus, sy'n gyfleus i'r holl deithwyr.



2


Cefnogi gwaith uwchraddio ac adnewyddu technoleg draffig i ddefnyddio'r seilwaith presennol yn well, gwella diogelwch a pharatoi'r rhwydwaith cludiant at y dyfodol

Gall defnyddio technoleg rheoli traffig modern ddarparu llwybr cost isel i helpu i fynd i'r afael â bwlch cynhyrchiant Cymru, wrth wella diogelwch a sicrhau bod y rhwydwaith yn barod ar gyfer technoleg newydd, megis cysylltedd a cherbydau wedi'u hawtomeiddio.

Gall rheolaeth traffig arloesol leihau costau drwy wella capasiti ar y rhwydwaith ffyrdd a lleihau tagfeydd drwy ddefnyddio data amser real, blaenoriaethu bysus, a gwasanaethau cerbydau cysylltiedig sy'n gallu trosglwyddo gwybodaeth amser real am deithiau i deithwyr.

Gyda chynlluniau seilwaith ffyrdd mawr wedi'u gohirio, ac amgylchedd cyllidol tynn, dylai Llywodraeth Cymru elwa o ddatblygiadau mewn technoleg rheoli traffig i wneud y mwyaf o gapasiti presennol ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd[5].

P'un a yw Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn capasiti ffyrdd newydd ai peidio, mae buddsoddi mewn technoleg draffig o'r radd flaenaf yn rhywbeth rhwydd y gellir ei wneud a fydd yn gwella canlyniadau ffyrdd ym meysydd diogelwch, ynni, costau a chapasiti.



3 Mandadu data agored, mewn amser real fel sail i system drafnidiaeth integredig

Mae defnyddio data cludiant cyhoeddus yn effeithiol yn sail hollbwysig i unrhyw ymdrechion i ddarparu rhwydwaith cludiant integredig a chyfannol. Fel a dywedir yng Nghynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027 Cymru, amcan y rhwydwaith cludiant Cymreig yw ‘un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn’[6].

I gyflawni hyn, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu polisiâu data clir a, lle bo angen, deddfwriaeth a rheoleiddio, i’w gwneud hi’n ofynnol i weithredwyr cludiant cyhoeddus ddarparu data amser real safonol (nad yw’n sensitif) ar amserlenni, prisoedd, argaeledd gwasanaethau, tarfiadau a thocynnau mewn fformatau sy’n addas i drydydd partïon eu defnyddio.

Bydd y data hwn yn helpu i lywio dyluniad y rhwydwaith, rhagolygon referniw, yn ei gwneud hi’n bosib i weithredwyr cludiant ysgogi ymyriadau i wella perfformiad neu

liniaru risg ac yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i lunwyr polisi.

At hynny, bydd darpariaeth cydgrynhoad ac agored y data hwn yn ei gwneud hi’n bosib i ddulliau cludiant alinio eu gwasanaethau, gan ei gwneud hi’n bosib i drydydd partïon arloesi gyda’r data hwn.

Mae prosiectau presennol megis Gwasanaeth Data Bysus Cymru yn gam cychwynnol gwych tuag at gyfuno a chydgrynhoi data er mwyn cyflawni rhwydwaith integredig. Mae’n gadarnhaol gweld Trafnidiaeth Cymru yn ceisio help gan y sector preifat i ddatblygu system archebu ddigidol aml-ddull sy’n cynnwys yr holl ddulliau cludiant (neu Ap Mas).

Mae ITS UK yn annog yr holl bleidiau gwleidyddol i rymuso corff parhaus o waith Trafnidiaeth Cymru wrth ddylunio a chyflawni rhwydwaith cludiant integredig digidol drwy sicrhau bod yr holl ddata cludiant wedi’i safoni, ei fod yn gywir, y gall peiriant ei ddarllen a’i fod mewn fformat y gall trydydd partïon ei gyrchu a’i ddefnyddio.



4 Parhau i gefnogi gwasanaethau bysus ar alw ar draws y genedl

Yn 2020, cyflwynwyd gwasanaeth bysus Fflecsi yng Nghymru, sef menter cludiant sy'n ymateb i alw (DRT) i gynnig dewis amgen hyblyg ac ar alw i wasanaethau bysus traddodiadol, yn enwedig mewn ardaloedd lle efallai nad yw llwybrau sefydlog yn ddichonol.

Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio technoleg ddigidol i gynnig cludiant lleol deinamig ac ar alw, sy'n arbennig o effeithiol wrth gefnogi ardaloedd gwledig lle efallai na fydd gwasanaethau llwybr sefydlog yn ddichonol.

Dylai gwasanaethau bws sy'n ymateb i alw barhau i gael eu defnyddio fel rhan o gynnig cludiant Cymru, gan gofio bod tystiolaeth y cynllun Fflecsi hyd yma yn dangos eu bod yn ffyrdd ymarferol o gynnal mynediad i gludiant. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cymunedau gwledig, lle gwnaethon nhw helpu i gynnal darpariaeth bysus yn ystod y pandemig ac maent yn dal i gael eu hystyried yn rhan bwysig o'r cyfuniad o gludiant cyhoeddus[7].

I gynyddu gwerth y cymorth hwn cymaint â phosib yn ystod y cynnydd mewn argaeledd cludiant sy'n ymateb i alw, dylai Llywodraeth Cymru gynnal cefnogaeth genedlaethol ar gyfer llwyfan craidd Fflecsi, ei ganolfan alwadau, a marchnata, gan ddarparu gwasanaeth cyfannol i Gymru gyfan. Mae'r model presennol yn cynnig manteision i arbedion maint ac yn sicrhau bod preswylwyr Cymru yn elwa o'n cynllun.

Dylid anelu cymorth pellach ar gyfer y cynllun cludiant sy'n ymateb i alw at gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, deall pwy sy'n gallu ei ddefnyddio, a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddibynadwy i'r holl gymunedau. Rydym yn awgrymu y dylai ymdrechion marchnata ac ymwybyddiaeth gyhoeddus bwysleisio gwybodaeth glir, canllawiau archebu syml, esboniadau o ardaloedd ac amseroedd gweithredu, a chymorth parhaus ar gyfer archebu dros y ffôn yn ogystal â mynediad drwy apiau.



cymru
wales

ebost: contact@its-uk.org
Ffon: +44 (0) 207 709 3003
gwefan: www.its-uk.org


Intelligent
Transport Systems **UK**
Empowering Transport Technology